# Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd ac Effeithlonrwydd Ynni

Dydd Iau 23 Gorffennaf 2020, 14.30 – 16.00

*Noddir gan Mark Isherwood AS*

**Yn bresennol**

**Cadeirydd:** Mark Isherwood AS

Michael Anderson, Ofgem
Sumina Azam, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Stephen Chamberlain, Llywodraeth Cymru
Matt Copeland, NEA
Jonathan Cosson, Cymru Gynnes
Ceri Cryer, Age Cymru
Phil Dawson, E.ON.
Steffan Evans, Sefydliad Bevan
Brian Hart, NEA
Mike Hedges AS
Sam Hughes, Cyngor ar Bopeth
Sion Jones, Senedd Cymru
Tudur Jones, Llywodraeth Cymru
George Jones, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Crispin Jones, Arben Am Byth

Simon Lannon, Prifysgol Caerdydd
Fflur Lawton, Smart Energy GB
Michelle Lewis, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Cheryl Martin, Plant yng Nghymru
Juliet Morris, Care & Repair Cymru
Mike Potter, NEA
Bethan Proctor, Cartrefi Cymunedol Cymru
Daniel Roberts, Ofgem
Ben Saltmarsh, NEA
Adam Scorer, NEA
Joanna Seymour, Cymru Gynnes
Tim Thomas, NRLA
Jack Wilkinson-Dix, Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
Nigel Winnan, Wales & West Utilities

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Claire Durkin, Ymddiriedolwr NEA
William Jones, Cyngor ar Bopeth Ceredigion
Lia Murphy, Ofgem
David Wallace, Cartrefi Melin

**1. Croeso a Chyflwyniad**

Croesawodd Mark Isherwood AS [MI] y cyfranogwyr i gyfarfod ar-lein cyntaf y grŵp trawsbleidiol, a chroesawodd Ben Saltmarsh [BS] fel ysgrifennydd dros dro y grŵp, a benodwyd yn ddiweddar yn bennaeth Cymru yn NEA Cymru. Nododd BS yr ymddiheuriadau oedd wedi dod i law.

Nododd MI fod COVID wedi cael effaith sylweddol ar gyllid cartrefi, yn enwedig i'r rheini sydd eisoes yn cael trafferth gyda chost gwasanaethau hanfodol; ac y byddai'r cyfarfod hwn yn trafod rhai o effeithiau uniongyrchol COVID ar yr aelwydydd sy'n wynebu tlodi tanwydd ac ar aelwydydd bregus yng Nghymru, yn ogystal â'r yr effeithiau sy'n dod i'r amlwg.

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy’n codi**

Roedd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2019, eisoes wedi'u dosbarthu ac fe'u cymeradwywyd fel cofnod cywir gan Juliet Morris, gyda Crispin Jones yn eilio. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**3. Ben Saltmarsh, Pennaeth NEA Cymru**

Esboniodd BS nad yw pawb yn teimlo effeithiau pellgyrhaeddol COVID-19 i’r un graddau, gyda 155,000 o aelwydydd yn wynebu tlodi tanwydd, ac o bosibl mae llawer o bobl eraill bellach yng Nghymru yn debygol o fod yn fwy bregus nag o’r blaen. Mae'r cysylltiad clir rhwng cyflyrau meddygol sy'n gwneud COVID-19 yn waeth – cyflyrau anadlol a chardiofasgwlaidd yn fwyaf penodol – yn gwaethygu trwy fyw mewn cartref oer a llaith ac mae'n bwysicach nag erioed fod pobl yn gallu cadw'n gynnes dros y gaeaf.

Mae Llywodraeth y DU a'r diwydiant ynni wedi cymryd rhai camau cynnar clodwiw i ddiogelu defnyddwyr ynni domestig yn ystod yr argyfwng, ond roedd National Energy Action (NEA) wedi gweld nifer o broblemau yr oedd angen eu datrys cyn cyflwyno cyfyngiadau symud am yr ail dro o bosibl. Nid oedd aelwydydd o reidrwydd yn ymwybodol o'r gefnogaeth sy’n gysylltiedig ag ynni sydd ar gael iddynt, yn enwedig os oeddent yn byw mewn ardaloedd gwledig neu eu bod wedi'u heithrio'n ddigidol. Lle mae pobl yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael, gallant wynebu heriau wrth gael gafael arno ac efallai na fydd rhai aelwydydd bob amser yn gyffyrddus yn gofyn am gymorth. Canfu NEA hefyd nad oedd cyngor ar draws cyflenwyr bob amser yn glir ac yn gyson ac, er bod egwyddorion eang ar waith, mae sefydliadau'n mynd i'r afael â'r sefyllfa mewn gwahanol ffyrdd, felly mae angen safoni rhywfaint ar y gefnogaeth.

Roedd dyled ynni yn broblem arwyddocaol i ddefnyddwyr a chyflenwyr cyn yr argyfwng. Mae llawer o aelwydydd incwm isel wedi gweld gostyngiadau sylweddol yn eu hincwm yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf oherwydd ffyrlo neu golli swyddi, a phan fydd hynny'n digwydd ar yr un pryd â defnydd uwch o gyfleustodau, mae'n debygol y byddwn yn gweld mwy o bobl yn mynd i ddyledion. Mae'n hanfodol bod dyled yn cael ei hadennill yn deg a chyda chyngor a chefnogaeth ariannol briodol. O ran adennill mewn modd teg, mae Ofgem wedi parhau i weithio ar hyn yn ddiweddar a bydd yn ofynnol yn awr i bob cyflenwr nodi cwsmeriaid rhagdalu sy'n hunan-ddatgysylltu a chynnig cefnogaeth iddynt, yn ogystal â chynnig credyd brys a gwasanaeth cyfeillgar. Bydd yr egwyddorion o ran y gallu i dalu, a gyflwynwyd yn 2010, hefyd bellach yn cael eu rhoi ar ffurf trwydded, sy'n golygu bod angen i bob cyflenwr ystyried y gallu i dalu wrth sefydlu trefniadau ad-dalu, heb ganolbwyntio ar sut mae ôl-ddyledion yn cael eu talu un unig ond faint sy'n cael ei dalu tuag at yr ôl-ddyledion hynny ac ar ba gyfradd. Mae NEA wedi bod yn edrych ar gynigion i bennu lefelau gofynnol o gredyd brys, neu safoni mecanweithiau i gael gafael ar gredyd yn ôl disgresiwn, o bosibl gan gynnwys fflagiau bregusrwydd ariannol penodol ar Gofrestrau Gwasanaeth Blaenoriaeth; mae angen i'r Llywodraeth hefyd sicrhau bod cyngor ar ddyledion yn cael ei ariannu'n ddigonol ac ystyried cyd-ariannu cynlluniau paru taliadau ar gyfer rhyddhad dyled, yn debyg i'r diwydiant dŵr. Mae NEA, yn ei ymgyrch ar y cyd â Fair By Design, wedi galw ar y Llywodraeth i ymestyn ac ehangu’r cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes, y mae disgwyl iddo ddod i ben ym mis Mawrth 2021. Ar hyn o bryd, mae'r cynllun yn cynnig taliadau awtomatig o £140 i dros 80,000 o aelwydydd yng Nghymru o dan y grŵp craidd a degau ar filoedd o aelwydydd y tu hwnt i hynny trwy'r grŵp ehangach.

Galwodd NEA am dystiolaeth yn ystod mis Mai a dechrau mis Mehefin i glywed barn rhanddeiliaid ar sut mae COVID-19 wedi effeithio arnyn nhw a'r cartrefi y maen nhw’n eu cefnogi. Cafwyd cyfanswm o

73 o ymatebion, a daeth chwarter ohonynt o Gymru. Canfu 78 y cant o’r ymatebwyr o Gymru fod effaith sylweddol ar eu gallu i ddarparu eu gwasanaethau sy’n gysylltiedig â thlodi tanwydd; roedd 100 y cant yng Nghymru yn teimlo bod risg gymedrol neu risg uchel fod ynni'n dod yn llai fforddiadwy i aelwydydd sy'n brin o danwydd yn ystod yr argyfwng; ac roedd 60 y cant wedi gweld cynnydd yn nifer y cleientiaid sy'n ceisio cyrchu'r system fudd-daliadau.

Archwilir y gwaith hwn yn fanylach yn y papurau polisi sydd ar gael yn www.nea.org.uk/COVID-19

Gorffennodd BS trwy ailadrodd y bydd y Cynllun Tlodi Tanwydd newydd ar gyfer Cymru yn hanfodol i helpu aelwydydd i fyw mewn cartrefi cynnes ac iach. Erbyn hyn, disgwylir i’r cynllun gael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Medi ar gyfer ymgynghoriad 12 wythnos ac mae hwn yn gyfle gwych i Lywodraeth Cymru adnewyddu ei hymrwymiad i ddod â thlodi tanwydd i ben a gwneud ymdrech o’r newydd gydag ystod o randdeiliaid allweddol ynghylch y mater hanfodol hwn.

**4. Sam Hughes, Ymchwilydd Polisi, Cyngor ar Bopeth**

Ym mis Mehefin 2020, edrychodd 4.9 miliwn o bobl ar wefan Cyngor ar Bopeth, gyda'r tudalennau cyngor yr edrychwyd arnynt fwyaf yn ymwneud â ffyrlo a diswyddo, a'r term y chwiliwyd amdano fwyaf oedd 'diswyddo'. Rhoddwyd cyngor i 148,200 o bobl dros y ffôn neu drwy sgwrs ar y we, a'r prif faterion a drafodwyd oedd Credyd Cynhwysol, budd-daliadau a chredydau treth a dyled.

Yng Nghymru, mae swyddfeydd Cyngor ar Bopeth wedi helpu mwy na 30,000 o bobl ers i’r cyfyngiadau symud ddod i rym. Ym mis Ebrill, roedd tua 250,000 o bobl eisoes wedi gweld eu horiau'n cael eu torri neu wedi cael eu diswyddo, ac roedd 42 y cant o bobl wedi gweld incwm eu haelwyd yn gostwng, gyda 7 y cant yn colli 80 y cant o incwm neu fwy. Dywedodd 34 y cant o rentwyr yng Nghymru eu bod ar ei hôl hi gyda’u taliadau rhent neu’n disgwyl syrthio ar ei hôl hi. Roedd pobl yn disgwyl wynebu’r problemau mwyaf gyda biliau ynni a’r dreth gyngor, gyda 5 y cant eisoes ar ei hôl hi, a disgwylir i dros 15 y cant syrthio ar ei hôl hi oherwydd diffyg incwm neu incwm is. Amcangyfrifir bod tua 300,000 o bobl yng Nghymru wedi syrthio ar ei hôl hi gydag un bil cartref neu fwy o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.

Yn ôl ymchwil a gyhoeddwyd ym mis Mehefin (yn berthnasol i Gymru a Lloegr), gwelwyd bod cyfradd yr hunan-ddatgysylltiadau gan gwsmeriaid mesuryddion rhagdalu wedi cynyddu o ganlyniad i beidio â chael digon o arian – 29 y cant dros y flwyddyn ddiwethaf yn codi i 44 y cant yn ystod y cyfyngiadau symud – gyda dwy ran o dair yn hunan-ddatgysylltu oherwydd incwm is o ganlyniad i COVID-19. Canfu’r ymchwil, er y gallai treuliau fod wedi lleihau oherwydd bod pobl wedi’u cyfyngu i’w cartrefi, nad oedd unrhyw arwydd o ostyngiad mewn hunan-ddogni, sy’n awgrymu nad yw rhai yn gallu fforddio’r ynni sydd ei angen arnynt i fod yn gyffyrddus yn eu cartref o hyd.

Mae'r arolwg *Facing the Cliff Edge* yng Nghymru yn dangos bod cyfran sylweddol o'r boblogaeth (56 y cant) yn poeni am eu gallu i ymdopi yn ystod yr argyfwng, ac mae'r pryderon hyn yn uwch i rentwyr, y grŵp oedran 18-34, y bobl sydd ar y rhestr warchod a'r rhai sydd wedi colli incwm oherwydd y pandemig. Mae gwaith ymchwil arall yn dangos bod pobl dan 40 oed bedair gwaith yn fwy tebygol o syrthio ar ei hôl hi gyda biliau oherwydd y coronafeirws, ac mae'r rhai sydd mewn sefyllfaoedd ansicr o ran gwaith, fel contractau dim oriau a gwaith asiantaeth, dair gwaith yn fwy tebygol o wneud hynny. O'r rhai yn y sector rhentu, dim ond chwarter oedd â chynilion y gallent ddibynnu arnynt pe bai angen, ac yn y grŵp o bobl sydd ar y rhestr warchod collodd 41 y cant o leiaf 20 y cant o'u hincwm ers dechrau’r coronafeirws, a chollodd mwy na chwarter fwy na 60 y cant o'u hincwm.

Mae data gan wasanaeth defnyddwyr Cyngor ar Bopeth yng Nghymru yn dangos mai gwallau o ran bilio rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2020 arweiniodd at gyfran fawr o'r galwadau (45.8 y cant). O ddechrau mis Mawrth i ganol mis Mehefin, cynyddodd y galwadau hyn bron 130 y cant. O'r defnyddwyr hynny a gyfeiriwyd at yr Uned Gymorth Ychwanegol, roedd y mwyafrif llethol (73.3 y cant) ar fesurydd rhagdalu ac yn methu â thalu i roi credyd ar eu mesurydd.

Yn ystod y misoedd nesaf, mae Cyngor ar Bopeth yn disgwyl i ddiweithdra fod yn broblem arwyddocaol, gyda 90,000 o bobl ychwanegol allan o waith yng Nghymru. Disgwylir i ddyledion sylweddol gronni, gyda 16 y cant o bobl yng Nghymru eisoes yn orddyledus cyn yr argyfwng. Disgwylir i lawer o'r amddiffyniadau ddod i ben yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. Ar hyn o bryd, mae dros 378,000 o bobl yng Nghymru ar ffyrlo (28.9 y cant), felly pan ddaw'r Cynllun Cadw Swyddi i ben bydd cyfran sylweddol o'r boblogaeth o bosibl yn wynebu cael ei diswyddo.

Wrth edrych ar gostau biliau gwresogi blynyddol posibl yn ystod ail gyfnod clo, mae'r Uned Ynni a Gwybodaeth Hinsawdd yn amcangyfrif y gallai'r rheini mewn cartrefi arbennig o aneffeithlon fod yn talu £268 yn fwy y flwyddyn ar eu biliau ynni oherwydd y cyfyngiadau symud.

Pa opsiynau sydd ar gael yng Nghymru? Un opsiwn fyddai ehangu'r meini prawf ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol. Mae cynyddu incwm yn parhau i fod yn broblem fawr – mae angen cyfeirio pobl at gyngor i hawlio'r holl gymorth o ran incwm sydd ar gael iddynt. Mae angen i ni sicrhau nad yw gorfodi treth gyngor yn gwaethygu anawsterau ariannol trwy ofyn i awdurdodau lleol oedi mesurau gorfodi am chwech i 12 mis, cynnig 'gwyliau' tri mis i'r rheini na allant fforddio gwneud taliadau ac ystyried ymestyn y cyfnod ôl-ddyddio ar gyfer lleihau'r dreth gyngor y tu hwnt i'r isafswm o dri mis. Dylid ymestyn amddiffyniadau ar gyfer rhentwyr preifat o dan Ddeddf y Coronafeirws, a dylid darparu cefnogaeth wedi'i thargedu i'r rheini sydd wedi mynd i ôl-ddyledion o ganlyniad i'r argyfwng COVID-19.

**5. Sumina Azam, Pennaeth Polisi, Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Mae *Gwella iechyd a llesiant yn ystod y gaeaf a lleihau pwysau'r gaeaf yng Nghymru* yn adroddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd, sy'n canolbwyntio ar ddull ataliol o wella iechyd a llesiant yn ystod y gaeaf a lleihau pwysau'r gaeaf ar wasanaethau. Ei nod yw llywio cynllunio strategol ar bob lefel ar draws pob sector.

Mae gan Gymru a'r DU gyfradd uchel o farwolaethau ychwanegol yn y gaeaf (3,400 yng Nghymru yn ystod gaeaf 2017/18; gyda 50,100 ledled Cymru a Lloegr yn yr un flwyddyn) ac mae effaith tywydd oer i'w gweld pan fydd y tymheredd mor fwyn ag 8ºC. Clefydau anadlol (35 y cant) yw un o'r ffactorau allweddol mewn marwolaethau ychwanegol yn ystod y gaeaf, ynghyd â chlefydau cylchrediad y gwaed (23 y cant) a dementia (22 y cant). Mae dros 75 y cant o farwolaethau ychwanegol yn ystod y gaeaf ymhlith pobl 75 oed a'n hŷn; mae cyflyrau iechyd sylfaenol yn ffactor allweddol ond mae ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol fel amddifadedd, tlodi tanwydd (10 y cant o farwolaethau ychwanegol yn y gaeaf), tai oer (30 y cant), digartrefedd ac arwahanrwydd cymdeithasol hefyd yn bwysig.

Un o'r pethau yr edrychwyd arno oedd ymyriadau ar sail tystiolaeth wrth fynd i'r afael ag iechyd gwael yn ystod y gaeaf a lleihau'r pwysau ar wasanaethau. Mae ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sydd ag effeithiau cadarnhaol yn cynnwys brechiadau ffliw, cyngor hylendid, ychwanegu fitamin D ac atal clefydau cronig, ac, i raddau helaeth, dyma'r un pethau sy'n cael eu trafod ar hyn o bryd yng ngoleuni

COVID ac wrth baratoi ar gyfer y gaeaf. Mae tystiolaeth gymysg ar gyfer effaith uniongyrchol gwelliannau i dai ac effeithlonrwydd ynni ar iechyd, ond gallant gael effaith anuniongyrchol.

Wrth edrych ar nifer y derbyniadau brys i'r ysbyty, gwelwn fod cynnydd amlwg bob gaeaf. Mae tuedd sylfaenol ar i fyny, felly waeth beth yw'r nifer mwyaf a'r lleiaf mae derbyniadau brys yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Prif achos derbyniadau brys yw clefydau anadlol ac mae hyn yn amlwg yn gysylltiedig â misoedd y gaeaf. Y ddau grŵp oedran sydd â chynnydd nodedig mewn derbyniadau i'r ystod yn ystod y gaeaf yw pobl ifanc o dan 18 oed a phobl dros 85 oed. Mae pobl dros 85 oed yn tueddu i fod â phroblemau cymhleth iawn sy'n eu cadw yn yr ysbyty am gyfnodau hirach, sydd wedyn yn achosi problemau yn yr ysbyty a'r system iechyd ehangach. Mae data'n dangos mai'r pumed ran fwyaf difreintiedig o'n poblogaeth sydd â'r lefel uchaf o dderbyniadau yn ystod y gaeaf ac mae niferoedd yn cyrraedd uchafbwynt amlwg bob gaeaf.

Mewn cyfweliadau, soniodd yr holl randdeiliaid y dylem fod yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol fel tlodi a thai, ac os ydym yn cryfhau gwasanaethau cymunedol ac yn cadw pobl yn iach, mae hyn yn atal pobl rhag mynd i mewn i'r ysbyty ac yn golygu eu bod yn fwy tebygol o allu dod allan o'r ysbyty, felly mae'n helpu'r llif trwy'r system iechyd a gofal. At hynny, dywedon nhw y dylem fod yn paratoi ar gyfer y gaeaf yn ogystal ag yn meddwl am yr hyn y gallwn ei wneud trwy gydol y flwyddyn i wella'r system; mae'r dull presennol yn adweithiol iawn ac yn canolbwyntio ar y tymor byr. Yn yr adroddiad, nodwyd fframwaith gweithredu sy'n ymwneud i raddau helaeth ag atal a dulliau cymunedol, fel cefnogi'r rhai sy'n byw mewn tlodi tanwydd a gwella cynhesrwydd ac effeithlonrwydd ynni cartrefi.

Yn ddiweddar iawn, cyhoeddodd yr Academi Gwyddorau Meddygol adroddiad ar baratoi ar gyfer yr heriau ar gyfer y flwyddyn i ddod, yn ymwneud yn bennaf â COVID a'r mesurau lliniaru y gellid eu gweithredu, gan gynnwys cynyddu tymereddau yn y cartref, cefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed gyda thaliadau tanwydd yn ystod y gaeaf a mynd i'r afael â thlodi tanwydd.

**6. Stephen Chamberlain a Tudur Jones**

Roeddent wedi gobeithio y byddai'r cynllun tlodi tanwydd ar ffurf ddrafft yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus cyn dechrau'r pandemig. Mae'r Gweinidog wedi gofyn i swyddogion edrych ar y cynllun eto yng ngoleuni COVID-19, gyda'r bwriad o gryfhau'r mesurau yn y cynllun lle maent yn teimlo nad ydyn nhw'n addas at y diben.

Mae Llywodraeth Cymru wedi symud yn gyflym i wella'r Gronfa Cymorth Dewisol ar gyfer y rhai sydd ei angen fwyaf, gyda gwerth oddeutu £24 miliwn o gyllid wedi'i ddyrannu, a rhyddhawyd oddeutu £3 miliwn o'r cyllid hwnnw yn ystod y chwe mis diwethaf ar gyfer taliadau brys am bethau fel y talebau tanwydd atodol.

O ran y rhaglen Cartrefi Cynnes, yn ystod y cyfyngiadau symud, roeddent yn gallu cefnogi mwy na 300 o gartrefi i gael boeleri dŵr poeth a gwres canolog wedi'u gosod. Erbyn hyn, maent yng nghanol y broses o osod mwy ohonynt cyn misoedd y gaeaf.

Mae cynllun peilot cyflyrau iechyd Nyth, sydd wedi bod ar waith ers mis Gorffennaf 2019, yn cynnig cefnogaeth i bobl sydd â chyflyrau anadlol a phroblemau o ran cylchrediad y gwaed, yn ogystal â phroblemau iechyd meddwl. Ers yr adeg honno, maent wedi cael dros 5,500 o atgyfeiriadau i'r peilot ac mae mwy na 1,000 o aelwydydd wedi elwa ar welliannau effeithlonrwydd ynni cartref, na fyddent fel arall wedi gallu elwa ar gynllun Nyth. Er yr oedd disgwyl i'r cynllun peilot ddod i ben, mae'n mynd i

barhau gan ei fod yn helpu pobl sydd â'r cyflyrau hynny, yn enwedig wrth i COVID-19 barhau yn y gymuned.

Pan wnaethant yr amcangyfrifon tlodi tanwydd yn ôl yn 2018, a gyhoeddwyd y llynedd, dywedwyd fod tua 12 y cant o aelwydydd yng Nghymru mewn tlodi tanwydd yn ôl y mesuriad 10 y cant. Gwnaethant hefyd gydnabod bod tua 144,000 o aelwydydd yn agos at wario rhwng 8 y cant a 10 y cant o incwm y cartref ar danwydd ac mewn perygl o ddioddef o dlodi tanwydd. O ystyried y ffigurau bod 378,000 o bobl yng Nghymru ar ffyrlo a chynnydd o ran diweithdra, y tebygolrwydd yw y bydd llawer iawn o'r bobl hynny mewn tlodi tanwydd yn dechnegol ac mae angen mynd i'r afael â hynny wrth symud ymlaen.

Ar 24 Ebrill, cwblhaodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Senedd ei ymchwiliad i dlodi tanwydd, gan wneud 21 o argymhellion, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ei hymateb iddynt, gan dderbyn pob un ond pedwar o'r argymhellion yn eu cyfanrwydd. Maent yn gobeithio dechrau ymgynghoriad llawn dros 12 wythnos ar y cynllun newydd erbyn diwedd mis Medi, ac yn trefnu rhai trafodaethau rhithwir fel rhan o'r ymgynghoriad hwnnw. Y gobaith yw cyhoeddi'r cynllun terfynol erbyn mis Chwefror 2021 a dechrau ei weithredu dros y ddwy flynedd nesaf. Y bwriad yw y bydd y cynllun yn cael ei adolygu bob dwy flynedd a'i ddiweddaru yn ôl yr angen.

Disgwylir i adroddiadau blynyddol Nest ac Arbed gael eu cyhoeddi yn ystod yr wythnosau nesaf. Ers ei lansio yn 2009, amcangyfrifir bod tua £365 miliwn wedi'i fuddsoddi trwy'r rhaglen Cartrefi Cynnes, ac mae wedi bod o fudd i dros 61,400 o gartrefi.

Mae'r Gweinidog, Lesley Griffiths, wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am sicrwydd ynghylch y Gostyngiad Cartrefi Cynnes. Cafwyd ymateb sy'n nodi y bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ynghylch parhad y cynllun presennol fel mesur dros dro cyn cynnal ymgynghoriad mwy cynhwysfawr y flwyddyn nesaf ar ddiwygiadau posibl i'r cynllun wrth symud ymlaen.

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am ddarn mawr o waith sy'n edrych ar sut y darperir gwasanaethau cyngor a chymorth i bobl yng Nghymru sy'n agored i niwed neu wedi'u hymddieithrio o'r farchnad ynni. Pwrpas y cynllun peilot yw mesur yr effaith y mae cyngor ar ynni yn y cartref yn ei chael ar gostau ynni cartrefi neu yn erbyn amcanion tlodi tanwydd. Yn ôl pob golwg, mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod hyn yn beth da, ond prin yw'r data meintiol sydd ar gael i gefnogi hynny, felly maent yn gobeithio rhoi cynllun peilot ar waith rywbryd yn ystod yr hydref i gael y wybodaeth honno. Maen nhw'n gobeithio defnyddio'r hyn a ddysgwyd i gyfrannu at ddarn ehangach o waith ar wasanaethau cyngor ynni yn fwy cyffredinol.

**7. Cwestiynau**

Nododd Mark Isherwood [MI] fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi copi o adroddiad blynyddol Ofgem i'r Aelodau, gan ddweud bod y Prif Weinidog a Lesley Griffiths wedi gofyn am sedd ar fwrdd Ofgem a bod Llywodraeth y DU yn ystyried y cais hwn.

MI: Dywedodd Sam Hughes [SH] fod ffigurau datgysylltu wedi codi, gan ofyn a oes gan unrhyw gyflenwyr ynni gyfradd ddatgysylltu uwch nag eraill. [SH] Er nad ydyn nhw'n ymwybodol o unrhyw gyflenwyr sydd wedi bod yn perfformio'n arbennig o wael, mae tîm manwerthu Cyngor ar Bopeth yn monitro data ynghylch gwasanaethau i ddefnyddwyr ac yn dweud wrth gyflenwyr yn uniongyrchol pan fyddant yn gweld tueddiadau sy'n peri pryder.

MI: Yng nghyflwyniad Sumina Azam [SA] fe ddangoswyd bod 10 y cant o farwolaethau ychwanegol yn ystod y gaeaf yn gysylltiedig â thlodi tanwydd, a 30 y cant yn gysylltiedig â chartrefi oer. Roeddwn yn disgwyl i'r ddau ffigur fod yn eithaf tebyg. Ai’r rheswm am hyn yw oherwydd diffiniadau o dlodi tanwydd neu a oes yna ryw ffactor arall? [SA] Rwy'n credu mai mater o ddiffiniad ydyw yn bennaf oherwydd nid yw llawer o gartrefi oer mewn tlodi tanwydd, ond efallai bod ffactorau eraill ar waith. Ni wnaethom edrych ar hyn yn fanwl, ond mae ystod eang o bethau fel cyflyrau iechyd sylfaenol a phob math o faterion cymdeithasol ac amgylcheddol yn gallu cael dylanwad.

MI: O gymryd nad oes ail don fawr, pryd fyddech chi'n gobeithio'n realistig y byddwch chi'n cyhoeddi'r cynllun tlodi tanwydd? [Stephen Chamberlain] Mae'r Gweinidog wedi ei wneud yn glir i swyddogion yr hoffai ddechrau'r ymgynghoriad ym mis Medi a'i gyhoeddi ym mis Chwefror 2021, ac mae swyddogion yn hyderus o gyrraedd y targedau hynny.

Gofynnodd Cheryl Martin a ellir dadgyfuno unrhyw un o'r ffeithiau a'r ffigurau a roddwyd gan Ben Saltmarsh a Sam Hughes yn ôl teuluoedd â phlant? [SH] Nid oes gennym unrhyw ffigurau penodol. Ymatebodd [BS] yn yr un modd a nodi pwysigrwydd parhau â chynlluniau fel y Gostyngiad Cartrefi Cynnes i deuluoedd yng Nghymru, ac ehangu’r cynlluniau hyn.

MI: Pa rôl fwy y gallai'r sector iechyd ei hun, yn enwedig gofal sylfaenol, ei chwarae yn yr agenda ataliol, cyfeirio neu ragnodi cymdeithasol pan fydd staff yn gwybod bod claf yn dioddef symptomau iechyd o ganlyniad i dlodi tanwydd neu gartrefi sy’n aneffeithlon o ran ynni? [SH] Ar hyn o bryd, mae Cyngor ar Bopeth yn ystyried sut y gallai Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth ddiwygiedig weithredu; rydym yn gweld bod cryn dipyn o ddyblygu gwaith wrth geisio nodi cwsmeriaid ar y Cofrestri Gwasanaethau Blaenoriaeth sydd gan wahanol rwydweithiau a chyflenwyr ynni, ac rydym yn ystyried a allem gael system lawer mwy effeithlon lle gall meddygfa meddyg teulu neu unigolion eraill sy'n darparu cyngor mewn cartrefi neu mewn hybiau gyfeirio at y gofrestr fel ffordd o geisio ehangu faint o wasanaethau a chynigion arbennig sydd ar gael i'r bobl hynny.

Tim Thomas i Stephen Chamberlain: Sylwais y byddwch yn cynnal trafodaethau ar lafar fel rhan o'ch ymgynghoriad ar gyfer y Strategaeth Tlodi Tanwydd nesaf; a fyddwch chi'n ymgysylltu â landlordiaid yn y sector rhent preifat yn benodol neu a allem ni fod yn gyfrwng i rai o'n haelodau? [SC] Mantais cynnal cyfarfodydd rhithwir yw y gallwn gynnal llawer mwy ohonynt a chael trafodaethau ehangach. Roedd gan Lywodraeth Cymru bolisi ar gyfyngu nifer y landlordiaid preifat a allai elwa ar fesurau effeithlonrwydd ynni cartref trwy Nyth i ddim mwy na thair cartref; mae’r rheol hon wedi cael ei llacio ac mae Nest bellach yn derbyn ceisiadau y tu hwnt i'r nifer honno. Felly, rydym yn awyddus i barhau i gefnogi'r sector rhentu preifat trwy'r cynllun Nyth. Rydyn ni hefyd wedi bod yn gweithio gyda Rhentu Doeth Cymru o ran y cyllid sydd ganddyn nhw i wella eiddo sy'n cyrraedd safon is na'r safonau effeithlonrwydd ynni gofynnol presennol, oherwydd rydyn ni'n cydnabod y gallai fod effaith ar y sector rhentu preifat sydd yn y pen draw yn niweidiol i’r bobl sy'n byw yn y cartrefi hynny. Rydym hefyd yn datblygu cynllun Nyth er mwyn iddo allu rhoi gwell gefnogaeth i fentrau tai cydweithredol.

Steffan Evans: A ydych chi wedi gweld cynnydd mawr yn ddiweddar yn y galw nawr bod yr argyfwng iechyd cychwynnol wedi’i leddfu rhywfaint, ac efallai wrth i bobl ddechrau meddwl am yr ail gam, sef yr argyfwng economaidd? A oes unrhyw gynlluniau ar waith i ystyried sut i hyrwyddo Nyth ymhellach yn benodol y tu hwnt i'r sianeli presennol? [SC] Ddim yn siŵr a yw Nest yn cynnwys unrhyw beth yn y cynllun presennol y tu hwnt i'r hyn a gynigir ar hyn o bryd, ond un o'r pethau rydyn ni'n ceisio ei wneud yw gwella’r ymwybyddiaeth o Nyth trwy sianeli amrywiol a thrwy weithio gyda rhanddeiliaid. Cwympodd y niferoedd yn ystod y cyfyngiadau symud ac mae nifer y mesurau bellach yn cynyddu i’r lefelau cyn COVID.

**9. Ethol Ysgrifennydd y Grŵp**

Cynigiodd Mike Hedges AS y dylid ethol yr ysgrifennydd dros dro presennol, Ben Saltmarsh, yn ysgrifennydd y Grŵp. Eiliwyd y cynnig gan Sam Hughes. Cafodd Ben Saltmarsh ei ethol heb wrthwynebiad.

**10 Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**

Cynigiwyd bod y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal tua mis Tachwedd, tra bydd ymgynghoriad y Strategaeth Tlodi Tanwydd ar agor, a bydd yr union ddyddiad ac amser yn cael eu hysbysebu maes o law.